# IS-BWYLLGOR DEDDFAU TRWYDDEDU A GAMBLO

**(Hybrid Council Chamber/Microsoft Teams)**

| **Members Present:** | **Dydd Llun, 14 Tachwedd 2022** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cadeirydd J.Henton** |
| **Cynghorwyr**: | S.Paddison a/ac A.Dacey |
| **Swyddogion yn bresebbol:** | Neil Chapple<br>Gavin White<br>Sarah McCluskie<br>T.Davies |
| **Representative of the Police Authority:** | N.Bailey |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **EITEMAU BRYS**

   Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

4. **CAIS AM GYMERADWYO TRWYDDED MANGRE - MURPHYS MAIN STAGE**

   Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cais canlynol a wnaed o dan Ddeddf Trwyddedu 2003

| | |
|---|---|
| Enw'r fangre | Murphy's Main Stage |
| Cyfeiriad y fangre | 18 Heol yr Orsaf, Port Talbot SA13 1JB |
| Enw'r Ymgeisydd | Phillip Murphy |
| Cyfeiriad yr ymgeisydd | 18 Heol yr Orsaf, Port Talbot SA13 1JB |
| Enw'r GMD | Phillip Murphy |

**Penderfynwyd:**
Cytunodd yr aelodau i GYMERADWYO'R cais, gyda'r cytundeb i roi'r amodau ychwanegol a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ar waith.

5. **CAIS AM ADOLYGU TRWYDDED SAFLE- OTHER PLACE (LIVE LOUNGE)**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cais gan Iechyd yr Amgylchedd i adolygu'r drwydded mangre ar gyfer Other Place (Live Lounge)

| | |
|---|---|
| Enw'r fangre | Other Place (Live Lounge) |
| Cyfeiriad y fangre | 9 Ynysderw Road, Pontardawe, Abertawe SA8 4EG |
| Enw'r ymgeisydd | Rachel Matthews - Swyddog Iechyd yr Amgylchedd |
| Cyfeiriad yr ymgeisydd | Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Y Ceiau, Ffordd Brunel, Castell-nedd SA11 2GG |
| Enw deiliad y drwydded mangre | HD Pub Investments Ltd |
| Goruchwyliwr Mangre Dynodedig | Mr Hans Andrei Dionisio Erive |

Nododd yr Is-bwyllgor fod nifer sylweddol o ddogfennau wedi'u cyflwyno'n briodol i'r Awdurdod Trwyddedu ddydd Iau 10 Tachwedd 2022. I sicrhau bod gan yr holl bartïon hawl i wrandawiad teg ac i'r holl bartïon ystyried yr holl ddogfennaeth ysgrifenedig yn ofalus, cytunodd yr Is-bwyllgor y dylid GOHIRIO'R cais ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol er budd y cyhoedd.

**CADEIRYDD**